



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Cross Hands  
Heol Caerfyrddin  
Cross Hands  
Llanelli  
Sir Gaerfyrddin  
SA14 6SU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2014**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Cross Hands. Mae wedi ei lleoli ym mhentref Cross Hands, ger Llanelli yn Sir Gâr. Daw'r disgyblion o'r pentref ei hun a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin, ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn ystod y tymor maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 126 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu i chwe dosbarth. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r bwriad o sicrhau bod y disgyblion yn datblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae tua 20% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol ac ni chaiff unrhyw ddisgybl gymorth gyda Chymraeg na Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae dau ddisgybl o dan ofal yr awdurdod lleol. Mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n uwch na'r canran sirol ac yn agos i'r canran cenedlaethol. Mae 36% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arweinir yr ysgol gan bennaeth gweithredol sydd hefyd yn bennaeth ar ysgol gynradd arall gyfagos. Sefydlwyd y trefniant hwn ar ddechrau tymor yr haf 2011 fel ffederasiwn anffurfiol i gychwyn. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cross Hands yn 2014-2015 yw £3,398. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,098. Mae Ysgol Cross Hands yn safle 89ain o'r 103 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda;
- bod medrau llafar disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n gyflym o ystyried eu man cychwyn;
- bod yr athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol a bod safon yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais a gydag agweddau da tuag at ddysgu;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel, gyda threfniadau effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer unigolion; a
- bod yr ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chartrefol.

Fodd bynnag:

- nid yw perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae datblygiad medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2 yn anwastad;
- nid yw'r holl athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson yn ymestyn medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig yn Gymraeg mewn pynciau eraill; ac
- nid yw'r tasgau bob amser yn ymestyn medrau'r disgyblion mwy abl.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth y pennaeth a'r uwch dim rheoli yn gosod cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant pellach;
- gweithdrefnau hunanarfarnu cadarn sy'n arwain at adnabod meysydd priodol i'w gwella;
- tystiolaeth o gynllunio a gweithredu gwelliannau'n llwyddiannus;
- y disgyblion a'r staff yn elwa o'r bartneriaeth agos ag ysgol arall y ffederasiwn; a
- bod y cydweithio agos gyda'r ystod o bartneriaethau yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

- A1 Gwella medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu a rhifedd ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2
- A3 Sicrhau fod her y gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd llawn yn yr holl wersi
- A4 Cryfhau'r rôl strategol y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Ar y cyfan, mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn is na'r disgwyl. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae safonau disgyblion yn yr holl fedrau, yn arbennig medrau cyfathrebu llafar yn y Gymraeg, yn dangos cynnydd da o'u cymharu â chanlyniadau'r asesiadau gwreiddiol. Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Er hyn, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn ymestyn eu medrau ar draws y gweithgareddau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw dysgu blaenorol yn briodol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen syml a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu syniadau'n glir ac yn fyrlymus, gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y dasg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Er hyn, mae ystod geirfa a chywirdeb mynegiant Cymraeg disgyblion yn amrywio'n sylweddol. Nid yw llawer o ddisgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy abl, yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau yn Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae'r disgyblion mwy galluog yn trafod a lleisio barn yn effeithiol gan ddefnyddio geirfa estynedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gymeriadau a rhediad stori. Mae llawer yn medru trafod cymeriadau a digwyddiadau yn eu llyfrau. Defnyddia'r rhan fwyaf strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen i gefnogi eu gwaith mewn sawl pwnc.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion o allu uwch yn defnyddio ansoddeiriau'n effeithiol i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, lleiafrif y disgyblion sy'n ysgrifennu'n annibynnol gyda chystrawen gywir. Nid yw disgyblion ym mhob dosbarth yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu i gynhyrchu darnau ysgrifenedig estynedig yn y Gymraeg mewn pynciau eraill. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Saesneg yn effeithiol at amrywiaeth o ddibenion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn gallu ymdrin â gweithgareddau datrys problemau syml a gwaith pen yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu data'n effeithiol gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff. Enghraifft o hyn yw'r graff sy'n cofnodi gwaith ar anifeiliaid. Mae safonau rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn gywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth briodol o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir ac yn gwneud defnydd priodol o ddata i gefnogi eu gwaith ar y gwahanol themâu. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd priodol o ddata ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwysu eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ar y deilliant 5 disgwylidig mewn medrau llythrennedd wedi bod yn y 50% is. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi symud o'r 25% isaf i'r 50% uwch. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch mewn medrau iaith yn y Gymraeg wedi symud o'r 25% isaf i'r 50% is yn ystod yr un cyfnod. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg a Chymraeg, heblaw am 2014, wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwylidig mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth ond yn tueddu i fod yn y 50% is mewn Cymraeg a mathemateg.

### **Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda gyda llawer yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwarteisi. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn effeithiol a gweithgar. Mae hyn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau ar fywyd yr ysgol ac ar y gymuned ehangach. Enghraifft dda yw'r ffordd mae'r aelodau'n rhannu eu syniadau ar sut i wireddu blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol drwy gyfrannu at ystod o weithgareddau yn eu cymuned leol.

Mae ymyrraeth gadarn i wella presenoldeb wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol yn lefel presenoldeb disgyblion yn 2013-2014. Cyn hynny, roedd y gyfradd bresenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau a chyfleoedd dysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgogol oddi fewn a thu allan i'r dosbarth ac yn meithrin dysgwyr annibynnol yn llwyddiannus. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau dysgu eang sy'n ymateb yn briodol i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fanteisio ar ymweliadau a'r gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth.

Mae'r medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl yn cael lle amlwg yn y cynllunio ac maent yn rhan greiddiol o'r rhan fwyaf o'r gwersi. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r holl athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson yn ymestyn medrau llafar ac ysgrifennu estynedig yn Gymraeg a medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae strategaethau ymyrraeth gynnar yn cael eu cynllunio yn ofalus ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae gan y dimensiwn Cymreig rôl ganolog ym mywyd yr ysgol. Rhoddir sylw da i hybu dealltwriaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth trwy ymweliadau ac astudio arlunwyr o Gymru. Mae'r ysgol yn gwahodd beirdd i hybu'r agwedd hon yn effeithiol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n dda drwy'r gwaith yn y gwersi gwyddoniaeth a gwersi cyffredinol, ynghyd â thrwy weithgarwch y cyngor eco. Mae'r ardal allanol, gan gynnwys yr ardd a'r ardal natur, yn datblygu i fod yn gyfraniad da i hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n effeithiol ar draws y Cyfnod Sylfaen. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau ysgogol i ennyn cyfranogiad a diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a ffocws clir ar atgyfnerthu medrau'r disgyblion. Maent yn modelu iaith yn effeithiol er mwyn codi safonau'r Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion ac mae'r dilyniant cydlynol o dasgau yn cynnal eu diddordeb. Er hynny, ar adegau, nid oes digon o ystyriaeth i lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth i sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth effeithiol i'r disgyblion ar lafar yn y gwersi, a chaiff y disgyblion eu hannog i adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd. Maent hefyd yn ysgrifennu sylwadau adeiladol i bwrpas yn llyfrau'r disgyblion. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a thargedau er mwyn arfogi'r disgyblion i allu adnabod y camau nesaf yn eu dysgu, er nad yw hyn yn gyson ar draws cyfnod allweddol 2.



Mae'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau asesiadau yn effeithiol er mwyn olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddiwallu anghenion carfanau penodol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau o ansawdd da ar gyfer rhieni.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgwr sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod nawws Gristnogol a moesol gan roi cyfle i greu ethos myfyrgar.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â nifer o asiantaethau allanol ac, o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliadaeth i ddisgyblion ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol yn dda. Defnyddia'r ysgol ystod o raglenni ymyrraeth effeithiol i fodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad da. Mae ymyrraeth fwriadus mewn cysylltiad ag asiantaethau allanol wedi cael effaith gadarnhaol iawn o ran codi lefelau presenoldeb.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae hyn yn arwain at ddarpariaeth effeithiol ar eu cyfer a chynlluniau addysgu unigol sy'n gosod targedau clir. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro'n gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion hyn.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus gydag ethos braf a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol.

Mae'r adeilad yn cynnig digon o le a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau awyr agored i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu deniadol a lliwgar, ac mae arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau dysgu pwrpasol sydd mewn cyflwr da. Maent wedi'u storio'n drefnus, ac yn hylaw i'w defnyddio gan holl staff a disgyblion yr ysgol.

Mae'r ardaloedd awyr agored eang yn darparu amgylchedd diddorol ac amrywiol. Maent yn cynnwys cyfleusterau eang ar gyfer chwaraeon, gan gynnwys yr ardal natur a gardd ysgol. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad strategol cadarn i'r ysgol. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n llwyddiannus i'r uwch dîm rheoli sy'n wedi cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ers creu'r ffederasiwn. Mae'r uwch dîm rheoli'n dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gynllunio manwl.

Mae gan yr arweinwyr ffocws clir ar godi safonau, ac maent yn defnyddio data'n dda i fonitro a herio perfformiad yr ysgol. Mae'r trefniadau diweddar i wella safonau gwaith a mireinio gweithdrefnau'r ysgol yn dechrau ymsefydlu a chael effaith arwyddocaol ar les a safonau disgyblion.

Mae'r holl staff yn yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac ysgolion eraill. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae corff llywodraethol yn ymroddgar, brwdfrydig a chefnogol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad ac mae aelodau unigol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er hyn, nid yw rôl strategol y corff llywodraethol wrth gyfrannu tuag at y broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae arweinwyr yn chwarae rôl flaenllaw wrth weithio gydag ysgolion eraill i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chodi safonau yn y Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae gan y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a grŵp o'r llywodraethwyr ddarlun clir a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn hon. Mae'n cynnwys data perfformiad disgyblion, arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion a safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cywir o'r ysgol.

Mae cyswllt agos rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n nodi targedau cyraeddadwy, meini prawf llwyddiant, cyfrifoldebau staff, amserlennu ac adolygiadau monitro. Mae blaenoriaethau clir er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae tystiolaeth glir fod y cynllunio bwriadus a gweithredu effeithiol wedi arwain at welliannau, yn enwedig wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, ac o gyflwyno agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol da sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion ac sydd yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr. Mae perthynas gref gyda rhieni a chyfeillion, sy'n cyfrannu arian sylweddol i brynu adnoddau ac offer. Mae'r rhieni yn ymgymryd â phrosiectau blynyddol sy'n cefnogi'r staff ac yn ehangu profiadau'r disgyblion, er enghraifft wrth greu'r 'ardd bren' ac adnewyddu'r dosbarth meithrin.

Mae'r cydweithiol effeithiol o fewn y ffederasiwn yn sicrhau rhannu arbenigedd ac arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion ac ar ddatblygiad proffesiynol staff.

Mae partneriaeth gadarn gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r cysylltiadau gyda busnesau a chymdeithasau fel y clwb bowlio, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau cyson yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn drylwyr ac yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwylidig.

## **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arian y grant amddifadedd disgyblion i gefnogi disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n briodol. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Rheolir ystod dda o adnoddau dysgu yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r buddsoddiad diweddar mewn offer technoleg gwybodaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau. Mae'r ardal tu allan wedi cael ei datblygu yn adnodd ysgogol i gefnogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan o nifer o rwydweithiau cymunedol sy'n cynnig cyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau.

Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd i gael hyfforddiant sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian, o ystyried deilliannau disgyblion.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6692008 - Ysgol Cross Hands

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	129
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	11.6
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	19	16	15
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	78.9	68.8	86.7
Chwarter meincnod	3	4	3
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	16	15
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	84.2	68.8	86.7
Chwarter meincnod	3	4	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	0.0	0.0	26.7
Chwarter meincnod	4	4	3
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	16	15
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	78.9	68.8	93.3
Chwarter meincnod	4	4	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	5.3	0.0	20.0
Chwarter meincnod	4	4	4
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iaith ddiw y lliannol (PSD)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	16	15
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	89.5	100.0	93.3
Chwarter meincnod	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	21.1	31.3	46.7
Chwarter meincnod	4	4	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## 6692008 - Ysgol Cross Hands

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	129
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	11.6
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

### Cyfnod allweddol 2

	2011	2012	2013	2014
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	20	18	16	11
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	80.0	77.8	81.3	81.8
Chwarter meincnod	3	4	4	4
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	20	18	16	11
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	75.0	77.8	75.0	81.8
Chwarter meincnod	4	4	4	4
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	50.0	16.7	50.0	27.3
Chwarter meincnod	1	4	1	4
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	20	18	16	11
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	75.0	66.7	75.0	90.9
Chwarter meincnod	4	4	4	2
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	25.0	0.0	18.8	27.3
Chwarter meincnod	2	3	3	3
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	20	18	16	11
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	95.0	77.8	87.5	81.8
Chwarter meincnod	1	4	3	4
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	30.0	16.7	25.0	36.4
Chwarter meincnod	3	4	4	3
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	20	18	16	11
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	90.0	88.9	87.5	100.0
Chwarter meincnod	3	3	4	1
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	20.0	11.1	50.0	45.5
Chwarter meincnod	4	4	1	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	61	60 98%	1 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	61	54 89%	7 11%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	61	58 95%	3 5%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		96%	4%	
The school teaches me how to keep healthy	61	60 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	61	60 98%	1 2%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	59	55 93%	4 7%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	61	60 98%	1 2%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	61	60 98%	1 2%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	61	54 89%	7 11%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	61	60 98%	1 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	59	39 66%	20 34%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	59	45 76%	14 24%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Michaela Leyshon	Arolygydd Lleyg
Meinir Lloyd Jones	Arolygydd Cymheiriaid

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.